


Canllawiau ar gyfer gwneud gwybodaeth yn hawdd ei darllen a'i deall i bobl ag anabledd dysgu

4. Gwirio





*“Sicrhewch
bod pob yn deall beth
rydych chi’n ei ddweud.”*

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	4
Profion darllenadwyedd	5
Y prawf pum bys	5
Prawf Flesch-Kincaid	5
Prawf SMOG	6
Beth os yw'r ddogfen yn methu'r prawf?	6
Ynglŷn â'r pecyn <i>Gwiriwch Ef!</i>	7
Defnyddio'r pecyn <i>Gwiriwch Ef!</i>	8
Mae'n ddarllenadwy, mae'n hawdd ei ddeall...ond a yw'n gwneud gwahaniaeth?	9

4. Gwirio

Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn rhoi cyngor i chi ar sut i wirio gwybodaeth cyn ei roi allan. Mae'r cynghorion yn berthnasol pa un a yw'r wybodaeth wedi ei gwneud gennych chi neu gan rywun arall.

Mae'r pecyn *Gwiriwch Ef!* yn gyfrwng i wirio ansawdd y testun Hawdd ei Ddeall.

Fe ddylai copi o *Gwiriwch Ef!* fod wedi dod gyda'r canllawiau hyn. Fel arall, gofynnwch i Anabledd Dysgu Cymru ei e-bostio atoch chi. Mae'n cymryd rhwng chwarter awr ag awr i wirio dogfen gan ddefnyddio *Gwiriwch Ef!*

Mae llawer o wybodaeth ysgrifenedig yn mynd i fethu cyrraedd safon *Gwiriwch Ef!*. Efallai y bydd arnoch eisiau gwneud prawf sylfaenol os ydych yn amau na fydd y ddogfen yn cyrraedd y safon. Yr enw ar hwn yw prawf darllenadwyedd.

4. Gwirio

Profion darllenadwyedd

Nid yw darllenadwyedd yr un fath â hawdd ei ddeall. Gall dogfen basio'r prawf darllenadwyedd ond, er hynny, fethu *Gwiriwch Ef!*. Fodd bynnag, gellir dweud gyda sicrwydd bod unrhyw ddogfen sy'n methu prawf darllenadwyedd yn methu *Gwiriwch Ef!* hefyd. Mae llawer o brofion darllenadwyedd ar gael. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys tri gwahanol math o brawf. Nid oes raid i chi eu defnyddio i gyd.

Y prawf pum bys

Dim ond gan rywun o'ch grŵp targed y gall hwn gael ei wneud. Mae'n brawf goddrychol syml iawn i brofi a yw rhywbeth yn addas ar gyfer eich grŵp targed. Gofynnwch i rywun o'ch cynulleidfa ddarllen yr wybodaeth yn uchel. Bob tro maent yn baglu wrth geisio darllen gair neu'n dweud nad ydynt yn gwybod beth mae gair yn ei feddwl, codwch un bys. Mae'r ddogfen yn methu'r prawf sgrinio os ydych wedi codi pum bys o fewn y 200 gair cyntaf.

Prawf Flesch-Kincaid

Dyma'r prawf hawsaf i'w ddefnyddio ar gyfer Iaith Gyffredin, cyn belled â'ch bod yn gallu trosi copi o'r ddogfen yn ddogfen Word. Gallwch ei ddefnyddio hefyd i brofi dogfen Hawdd ei Deall. Mae prawf Flesch-Kincaid wedi ei seilio ar gyfartaledd y nifer o sillafau y gair a chyfartaledd y nifer o eiriau y frawddeg. Gellir ei gyflwyno fel Rhwyddineb Darllen (dylai testun Hawdd ei Ddeall sgorio rhwng 90 a 100; dylai testun Iaith Gyffredin sgorio rhwng 60 a 90) neu fel Lefel Graddedig (dylai testun Hawdd ei Ddeall fod dan 3; dylai testun Iaith Gyffredin fod dan 8).

Mae hi bron yn amhosibl mesur yr un o'r sgoriau â llaw. Fodd bynnag, os ydych chi'n defnyddio unrhyw fersiwn o Microsoft Word, gallwch wneud i'r cyfrifiadur redeg y prawf i chi. Yn Word 2003, er enghraifft, dewiswch 'tools' > 'spelling and grammar' > 'options' ac wedyn edrychwch ar y blwch 'readability statistics'. Yna rydych chi'n mynd trwy'r ddogfen gan ddewis 'ignore' bob tro rydych chi'n cael y dewis o newid rhywbeth. Ar ôl i chi gyrraedd y diwedd bydd Sgôr Darllenadwyedd yn cael ei roi i chi, sy'n rhoi sgorau Rhwyddineb Darllen a Lefel Graddedig.

Hyd yn oed os yw sgorau'r ddogfen ychydig y tu allan i'r cyrhaeddiad a gymeradwyir ar gyfer testun Hawdd ei Ddeall, efallai y bydd arnoch eisiau defnyddio pecyn *Gwiriwch Ef!* os yw'r ddogfen yn edrych yn Hawdd ei Deall i chi.

4. Gwirio

Prawf SMOG

Mae SMOG yn sefyll am the **Simple Measure of Gobbledegook**. Cafodd ei ddatblygu ym 1969 gan G. Harry McLaughlin. Mae wedi ei brofi ar raddfa fawr ac yn ymddangos ei fod yn rhoi canlyniadau dibynadwy iawn. Dylai Lefel Darllenadwyedd testun Hawdd ei Ddeall fod yn 10 neu dan hynny; dylai Lefel Darllenadwyedd ar gyfer testun Iaith Gyffredin fod yn 14 neu dan hynny. Os yw'r sgôr damaid yn unig uwchben y lefel a argymhellir, efallai y bydd arnoch eisiau defnyddio pecyn *Gwiriwch Ef!* os yw'r ddogfen yn ymddangos yn hawdd ei deall i chi.

Gellir gwneud y prawf hwn ar y cyfrifiadur neu â llaw.

Ar y cyfrifiadur:

Ewch i www.niace.org.uk/misc/SMOG-calculator/smogcalc.php#. Teipiwch y testun o'r ddogfen rydych chi'n ei gwirio, neu copi'wch a gludwch ef. Os yw hi'n ddogfen hir, defnyddiwch o leiaf can gair o dri man o leiaf yn y ddogfen.

Â llaw/cyfrifiannell:

1. Dewiswch destun.
2. Cyfrifwch **10** brawddeg.
3. Cyfrifwch y nifer o eiriau sydd â thair sillaf neu fwy.
4. Lluoswch hyn gyda **3**.
5. Rhowch gylch o amgylch y rhif agosaf at yr ateb a gewch

1 4 9 16 25 36 49 64 81 100 121 144 169

6. Edrychwch beth yw ail isradd y rhif y rhoesoch gylch o'i amgylch.
7. Ychwanegwch **8** i roi'r Lefel Darllenadwyedd i chi.

Beth os yw'r ddogfen yn methu'r prawf?

Os yw'n ddogfen rydych chi wedi ei gwneud eich hun, edrychwch yn ôl at **Gwneud** i weld a fedrwch chi wella'r ddogfen.

4. Gwirio

Ynglŷn â'r pecyn *Gwiriwch Ef!*

Mae *Gwiriwch Ef!* wedi ei ddatblygu a'i brofi gan bobl ag anabledd dysgu gyda chefnogaeth. Cyfrwng yw i edrych ar ansawdd y testun Hawdd ei Ddeall.

Fel y gwelsom yn **Gwneud**, mae hawster testun Hawdd ei Ddeall yn dibynnu ar fwy na geiriau'n unig. Mae'n dibynnu:

- pa mor hawdd yw hi i ddod o hyd i'r wybodaeth
- ar yr wybodaeth ei hun
- ar y geiriau a'r brawddegau
- y diwyg cyffredinol
- y dyluniad a'r graffeg.

Mae gan *Gwiriwch Ef!* ran ar gyfer bob un o'r pynciau hyn. O fewn pob rhan mae *Gwiriwch Ef!* yn gofyn nifer o gwestiynau. Mae'r cwestiynau wedi eu seilio ar y canllawiau ar gyfer testun Hawdd ei Ddeall a restrir yn **Cael rhagor o wybodaeth**. Mae'r sgôr terfynol yn ddibynnol ar y nifer o rannau sydd wedi eu cymeradwyo a'r nifer sydd wedi eu gwrthod. Ychydig iawn o ddogfennau fydd wedi eu cymeradwyo am bob cwestiwn, os oes rhai o gwbl. Fodd bynnag, cyn belled ag y mae'r ateb i'r rhan fwyaf o'r cwestiynau o fewn rhan yn cael cymeradwyaeth, bydd y ddogfen wedyn wedi ei chymeradwyo ar gyfer y rhan honno.

Nid yw cael eu cymeradwo am bob rhan yn gwarantu bod yr wybodaeth yn hawdd i bawb yn eich cynulleidfa ei deall nac y bydd pobl yn gweithredu ar y wybodaeth honno. Fodd bynnag, mae'n mesur pa mor debygol yw hi y bydd yr wybodaeth ysgrifenedig yn ddefnyddiol ar gyfer y rhai hynny yn eich cynulleidfa sydd heb fod ag arddulliau ag anghenion cyfathrebu unigoleddig iawn.

4. Gwirio

Defnyddio'r pecyn *Gwiriwch Ef!*

Mae llawer o'r cwestiynau yn wrthrychol a digon syml i unrhyw un eu hateb. Fodd bynnag, mae rhai o'r cwestiynau yn fwy goddrychol, felly bydd yr ateb yn dibynnu i ryw raddau ar y person sy'n ateb y cwestiwn. Golyga hyn y bydd y cyfrwng ar ei fwyaf cywir pan fydd yn cael ei ddefnyddio gan berson neu grŵp o bobl o'ch cynulleidfa darged.

Yn ddelfrydol, nid y bobl sydd wedi darparu'r wybodaeth ddylai defnyddio'r cyfrwng *Gwiriwch Ef!*. Er enghraifft, os ydych chi'n defnyddio panel i ddarparu gwybodaeth, efallai bydd arnoch eisiau gofyn i aelodau eraill o'r gynulleidfa darged ddefnyddio *Gwiriwch Ef!*. Y rheswm am hyn yw y bydd y bobl sydd eisoes wedi gweithio ar y ddogfen yn ei chael yn anodd i sgorio'r ddogfen fel petaent heb ei gweld erioed o'r blaen. Mae hefyd yn ymgadw rhag 'proffesiynoldeb cynyddol' pan fydd aelodau o'r panel yn dechrau meddwl mwy fel pobl broffesiynol o fewn y mudiad ac yn llai fel gweddill y gynulleidfa. Mae'n arfer da i dalu'r unigolion neu'r grwpiau am wirio'r wybodaeth i chi.

Efallai y bydd hi'n well gan fudiadau brynu gwasanaeth gwirio trwy drefniant neu drefnu cyfnewid gyda mudiad arall fel eu bod yn gwirio'u gwybodaeth ei gilydd.

Gellir dod o hyd i gyfarwyddiadau ynghylch y ffordd o ddefnyddio *Gwiriwch Ef!* o fewn y cyfrwng ei hun.

4. Gwirio

Mae'n ddarllenadwy, mae'n hawdd ei ddeall... ond a yw'n gwneud gwahaniaeth?

Y cam olaf o wirio gwybodaeth yw gweld a yw'r wybodaeth yn gwneud gwahaniaeth. Mae'n bosibl cael gwybodaeth ysgrifenedig sy'n pasio *Gwiriwch Ef!* yn ddidrafferth ond nad yw'n briodol er hynny gan nad yw'n gwneud gwahaniaeth i bobl.

Y gwiriad terfynol yw edrych a yw ymddygiad pobl wedi newid o ganlyniad i'r wybodaeth. Er enghraifft, os ydych yn gwneud taflen ar fyw'n iach bydd arnoch angen gwybod:

1. A wnaeth pobl ddeall y daflen?
2. Wnaeth o gyrraedd rhai grwpiau o bobl yn haws na rhai eraill? A gafodd rhai eu gadael allan?
3. A yw pobl yn byw bywydau mwy iach?

Neu, os ydych yn gwneud dogfen ymgynghori, bydd arnoch angen gwybod:

1. A ddaeth pobl i wybod am y ddogfen a'i darllen a'i deall?
2. Wnaeth o gyrraedd rhai pobl yn haws na rhai eraill? Gafodd rhai eu gadael allan?
3. Wnaeth pobl ymateb i'r ymgynghoriad?

Mae'r math hwn o wirio yn rhan o brisio gwerth. Math o ymchwil yw prasio gwerth i weld a oedd diben gwneud yr hyn rydych chi wedi ei wneud.

© Anabledd Dysgu Cymru / Mencap Cymru / Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan/ Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan 2012

Am ragor o gopiâu o'r canllawiau hyn cysylltwch ag Anabledd Dysgu Cymru

Ffôn 029 2068 1160

E-bost enquiries@learningdisabilitywales.org.uk

Ffotograff y clawr blaen: Inspired Services

